# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

**Adroddiad ar ansawdd addysg yn**

**Ysgol Eifion Wyn**
**Porthmadog,**
**Gwynedd,**
**LL49 9NU**

**Rhif yr ysgol: 6612104**

**Dyddiad yr arolygiad: 17/05/10**

**gan**

**Edward Goronwy Morris**
**78283**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/07/10**

**O dan rif contract Estyn: 1121209**

**Cwestiwn Allweddol 3:**

**Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

79. Trwy sesiynau addoli ar y cyd hynod o effeithiol, hyrwyddir datblygiad ysbrydol y dysgwyr yn rhagorol. Atgyfnerthir eu hymwybyddiaeth o ofal am eraill, o empathi a gallu i gydymdeimlo gan y gwaith a wneir i goffau perthnasau i ddysgwyr ynghyd â myfyrio ar ddigwyddiadau byd-eang sy'n effeithio ar bobl. Mae'r agweddau hyn yn cyfrannu'n rhagorol at ddealltwriaeth dysgwyr o ddinasyddiaeth fyd-eang. Maent hefyd yn cyfrannu at eu gwneud hwy yn 'ddinasyddion byd-eang'.

80. Darperir profiadau rhagorol eraill fel rhan o'r ddarpariaeth i hyrwyddo eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang, megis y strategaeth 'E-twinning' gydag amrywiol ysgolion yng ngwledydd Ewrop a'r ymgyrch sydd gan ddysgwyr B5 dros 'hawl i addysg' i blant yn Tanzania. Trafodir materion rhyngwladol yn rheolaidd.

81. Mae gan yr ysgol statws uchel iawn yn y gymuned leol. Gwerthfawrogir eu gweithgarwch cwricwlaidd ac all gwricwlaidd gan y Cyngor Tref a gan y rhieni.

83. Darperir yn rhagorol i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o faterion cynaladwyedd. Mae'r materion hyn yn greiddiol i fywyd yr ysgol ac mae'r pwyllgor Eco-Ysgol yn frwdfrydig ac yn weithgar. Trefnwyd bod biniau ailgylchu papur, bwyd a phlastig o gwmpas yr ysgol tra mae nifer helaeth o'r goleuadau yn yr ysgol yn diffodd eu hunain. Mae'r gwaith a wneir yn yr ardd, yn ogystal â chanfyddiadau gwaith maes yn y Goedlan yn ychwanegu'n rhagorol at y ddarpariaeth.